CYNGOR TREF
FFESTINIOG
TOWN COUNCIL

Swyddfa'r Cyngor ● 5 Stryd Fawr ● Blaenau Ffestiniog ● Gwynedd ● LL41 3ES
☎ 01766 832 398 ✉ clerc @cyngortrefffestiniog.cymru

COFNODION CYFARFOD ARFEROL CYNGOR TREF FFESTINIOG
A GYNHALIWYD NOS IAU 9fed o FAWRTH 2017
YN SIAMBR Y CYNGOR AM 7.00 Y.H.

CADEIRYDD: Cynghorydd Annwen Daniels

YN BRESENNOL: Cynghorwyr: Bedwyr Gwilym, Erwyn Jones,
Mel Goch ap Meirion, Kevin Baldwin, Mandy Williams-Davies
Rory Francis, Mari Rees a Ronwen D Roberts

9816/03/17 YMDDIHEURIADAU:
Cynghorwyr: Will G. Roberts

9817/03/17 DATGAN DIDDORDEB

Cynghorydd Erwyn Jones	**9825/03/17 Cais Cynllunio C17/0102/03/LL**
Cynghorydd Mari Rees	**9825/03/17 Cais Cynllunio C17/0137/03/DA**
Cynghorydd Erwyn Jones	**9827/03/17 Cais Cynllunio C17/0102/03/LL**
Cynghorydd Mel Goch ap Meirion	**9827/03/17 Cais Cynllunio NP5/59/271S**

9818/03/17 MATERION BRYS

Materion a ddylai, ym marn y Cadeirydd, gael eu hystyried yn y cyfarfod fel rhai brys, yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.
Dalier Sylw trafodaeth yn unig, ni chaniateir unrhyw benderfyniad ar fater a godwyd yn y fan hyn ond ei raglennu ar gyfer y cyfarfod nesaf.

Bu i'r Cynghorwyr longyfarch Elin Roberts ar ennill Ysgoloriaeth Patagonia 2017/18. Bu i Elin gael ei llongyfarch hefyd ar gael ei dewis i fynychu Ysgol Haf y Gyfraith UNIQ yn Rhydychen a hefyd ar gael ei chynnwys ar y rhestr o 175 i'w dewis ar gyfer yr US Sutton Trust Programme.

Bu i'r Cyngor dderbyn gwybodaeth ynglŷn â gwasanaeth DEWIS Cymru sef gwefan newydd ar gyfer gwybodaeth ynglŷn â llesiant.

Cafwyd gwybodaeth bydd hyfforddiant i'w gynnal gan UnLlais Cymru yng Nghanolfan Hen Blas, Y Bala ar 15fed o Fawrth rhwng 6.30 a 9.00 o'r gloch7.00 o'r gloch

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

9819/03/17 MATERION YR HEDDLU

Nid oedd aelod o'r Heddlu yn bresennol yn y cyfarfod.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

9820/03/17 DERBYN A CHADARNHAU COFNODION CYFARFOD ARFEROL 9fed CHWEFROR 2017

PENDERFYNIAD: Derbyn a Chadarnhau'r Cofnodion gyda'r Cynghorydd Mel Goch ap Meirion yn cynnig a'r Cynghorydd Erwyn Jones yn eilio gyda'r cywirdeb ar gofnod 9808/02/17 mai un bocs sydd yn Penbryn, Ffestiniog

9821/03/17 CYFRIFON I'W TALU

Cricieth Cleaning Ltd (Amrywiol)	£	997.60	Rhif Siec.	002382
Catrin S Williams (Cyfieithydd)	£	105.88	Rhif Siec.	002383
Viking Direct (Defnydd swyddfa)	£	123.06	Rhif Siec.	002384
CommuniCorp (Cyfnodolyn)	£	12.00	Rhif Siec.	002385
Dŵr Cymru (Parc)	£	150.67	Rhif Siec.	002386
Mr Flag (Baneri)	£	359.04	Rhif Siec.	002387
Gwelliannau Ffestiniog (Cyfraniad)	£	250.00	Rhif Siec.	002388
J Evans (Llwybrau)	£	820.00	Rhif Siec.	002389
J Farrington (Caeau Chwarae)	£	540.00	Rhif Siec.	002390
Arian Parod	£	60.00	Rhif Siec.	002391
Cerrig Cyf (Pistyll)	£	1860.00	Rhif Siec.	002396
J P Farrington (Garddio)	£	1725.00	Rhif Siec.	002397
BT (Ffôn)	£	32.28	Debyd Uniongyrchol	
BT (Band eang)	£	40.80	Debyd Uniongyrchol	
Antur Stiniog (Rhent)	£	276.00	Debyd Uniongyrchol	
Cyngor Gwynedd (Trethi)	£	200.00	Debyd Uniongyrchol	

PENDERFYNIAD: Rhoddwyd caniatâd i'r Clerc dalu'r uchod

9822/03/17 ARIAN I MEWN

Cyngor Gwynedd (Ad-daliad llwybrau cyhoeddus)

£ 2857.50

9823/03/17 CEISIADAU ARIANNOL

Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Meirionnydd

	£	25.00	Rhif Siec.	002398
Ymchwil Canser Cymru	£	200.00	Rhif Siec.	002399

9824/03/17 PWYLLGOR MWYNDERAU

Derbyn argymhellion Pwyllgor Mwynderau nos Iau 16eg o Chwefror 2017

ARGYMHELLION IS BWYLLGOR MWYNDERAU
NOS IAU 16eg CHWEFROR 2017
YN SIAMBR Y CYNGOR AM 7.00 O'R GLOCH YR HWYR

Presennol:
Cynghorwyr:
Wil Guest Roberts (Cadeirydd)
Annwen Daniels
Mel Goch ap Meirion
Erwyn Jones
Kevin Baldwin

Ymddiheuriad:
Cynghorydd:
Mandy Williams-Davies
Mari Rees

DATGAN DIDDORDEB
Ni fu i unrhyw Gynghorydd Datgan Diddordeb

1. **Adroddiad Caeau Chwarae**
   Argymell: Ni chafwyd unrhyw nam newydd felly derbyn yr adroddiadau

2. **Llwybrau Cyhoeddus** - trefnu cyfarfod i drafod adroddiad y Cerddwr Llwybrau
   Argymell: I drafod yr adroddiad nos Iau 23ain o Fawrth yn y Siambr am 7.00 o'r gloch.

3. **Hyrwyddo** - trafod prisiau Designer Signs
   Argymell: I dderbyn y prisiau fel y dyfynbris sef £1,360.40 cyn TAW VAT am 10 arwydd cae chwarae, 2 arwydd Amseroedd Agor a Chau i'r Parc a 10 Hwyl gyda gwaelod ar gyfer dŵr neu dywod gan Designer Signs.

4. **Diffibriliwr** - Cafwyd gwybodaeth bod gwahoddiad i'r BHF i gyfarfod y Cyngor Tref i drafod Cynnig y Cynghorydd Kevin Baldwin i osod diffibriliwr ar adeilad y Cyngor Tref wedi ei yrru ymlaen a disgwylir ateb yn fuan.
   Argymell: I dderbyn y wybodaeth

5. **Rawson** - Cafwyd gwybodaeth bod sawl anrheg wedi ei brynu'n lleol i Maia Jones, enillydd Ysgoloriaeth Patagonia'r Cyngor Tref 2016/17 i fynd gyda hi pan fydd yn ymweld â Rawson mis Mawrth.
   Argymell: I dderbyn y wybodaeth

6. **Bin Hafan Deg** - Cafwyd gwybodaeth bod pris o £15.50 y mis i wagio bin ychwanegol yn Hafan Deg.
   Argymell: I dderbyn y wybodaeth ac i aros i'r Dref Werdd rhoi'r bin yn rhodd i'r Cyngor Tref.

7. **Parc Sglefrio** - Cafwyd gwybodaeth y bydd y goleuadau yn mynd allan am 10.00 yr hwyr cyn gynted â modd. Mae'r Dref Werdd yn trefnu gweithdy graffiti yn y Parc Sglefrio yn fuan a bod y gwaith o glirio'r hen draciau ceir modur bron a darfod.
   Argymell: I dderbyn y wybodaeth ac i atgoffa'r Dref Werdd bod angen iddynt ofyn am ganiatâd y Cyngor Tref cyn cynnal unrhyw weithgaredd ar y Parc Sglefrio er mwyn cael sicrwydd yswiriant atebolrwydd cyhoeddus.

8. **Gwefan**
   Cafwyd gwybodaeth bod y cynghorwyr yn fodlon ar y wefan hyd yn hyn a gobeithir iddi fod yn fyw o fewn y mis.
   Argymell: I dderbyn y wybodaeth

PENDERFYNIAD: Derbyn yr argymellion gyda'r Cynghorydd Erwyn Jones yn cynnig a'r Cynghorydd Kevin Baldwin yn eilio

9825/03/17 PWYLLGOR CYNLLUNIO

Derbyn argymellion Pwyllgor Cynllunio nos Lun 20fed o Chwefror 2017

ARGYMHELLION PWYLLGOR CYNLLUNIO NOS FERCHER 20FED CHWEFROR 2017 YN SIAMBR Y CYNGOR AM 7.00PM

Presennol:
Cynghorwyr:
Mel Goch ap Meirion -Cadeirydd
Annwen Daniels
Rory Francis
Erwyn Jones
Will G Roberts
Mari Rees

Ymddiheuriad:
Cynghorwyr:
Ronwen D Roberts
Bedwyr Gwilym

DATGAN DIDDORDEB

Cynghorydd Mari Rees - Cais Cynllunio C17/0137/03/DA
Cynghorydd Erwyn Jones - Cais Cynllunio C17/0102/03/LL

Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd - Cofrestr Newidiadau Materion sy'n Codi Trefnu dyddiad i drafod y newidiadau hyn. Gellir gweld y newidiadau arfaethedig ar www.gwynedd.llyw.cymru

Argymhellion Roedd y Cynghorwyr yn bryderus am nifer o agweddau ar y ddogfen ac yn dilyn trafodaeth hir, penderfynwyd cynnal cyfarfod pellach ddydd Mawrth 7fed o Fawrth am 7.00o'r gloch yn y Siambr.

1. Cais Cynllunio Rhif C17/0102/03/LL
Datgan Diddordeb
Cynghorydd Erwyn Jones
Ymgeisydd North Wales Recycling Ltd
Chwarel Llechwedd, Blaenau Ffestiniog
Cais am orsaf trosglwyddo gwastraff i dderbyn a phrosesu deunyddiau anadweithiol
Dim Gwrthwynebiad

2. Cais Cynllunio Rhif C17/0110/03/LL
Ymgeisydd Llechi Cymru
Chwarel Oakeley
Blaenau Ffestiniog
Symud deunydd o ddynodon gweithio mwynau
I'w drafod ymhellach yn dilyn cyfarfod safle

3. Cais Cynllunio Rhif C17/0081/03/LL
Ymgeisydd Mr A Pierce
21 Heol yr Eglwys
Blaenau Ffestiniog
Newid defnydd adeilad gynnwys caffi gyda man eistedd allanol, byncws 5 ystafell wely gyda adnoddau cysylltiol, uned byw hunan gynhaliol 3 ystafell wely, ynghyd a newidiadau strwythurol gan gynnwys dymchwel rhan o'r adeilad presennol, newid blaen siop a chreu man parcio
Dim Gwrthwynebiad

4. Cais Cynllunio Rhif C17/0133/03/DA
Tŷ Dol
2 Glandwr Terrace
Blaenau Ffestiniog
Ymgeisydd Mr V. Hooper
Cais am ddiwygiad di-faterol i gais a ganiatawyd yn flaenorol o dan gyfeirnod C15/1065/03/LL trwy gynnwys stribyn cynnal a chadw rhwng estyniad a'r eiddo cyfochrog
Dim Gwrthwynebiad

CEISIADAU WEDI DERBYN PENDERFYNIAD AWDURDOD CYNLLUNIO

1. Cais Cynllunio Rhif C17/0137/03/DA
Datgan Diddordeb
Cynghorydd Mari Rees
Capel Salem
Rhiwbryfdir
Blaenau Ffestiniog
Ymgeisydd Mr Rees Stavros
Cais am ddiwygiad di-faterol i gais a ganiatawyd yn flaenorol o dan rif C15/0902/03/LL trwy newid y defnydd o fyncws i dŷ preswyl
Gwrthod

2. Cais Cynllunio Rhif C17/0027/03/LL
Ymgeisydd Mr K Coleman
Gretaburn
12 Glanypwll
Blaenau Ffestiniog
Cais ôl gweithredol i ddychwelyd 1 tŷ preswyl presennol i'w ddefnydd gwreiddiol fel dau dŷ preswyl ar wahân
Caniatáu

PENDERFYNIAD: Derbyn yr argymellion gyda'r Cynghorydd Erwyn Jones yn cynnig a'r Cynghorydd Mel Goch ap Meirion yn eilio

9826/03/17 PWYLLGOR NADOLIG
Derbyn argymellion Pwyllgor Nadolig nos Lun 27ain o Chwefror 2017

ARGYMHELLION PWYLLGOR NADOLIG
NOS LUN 27AIN CHWEFROR 2017
YN SIAMBR Y CYNGOR AM 7.00PM

Presennol:
Cynghorwyr:
Annwen Daniels
Ronwen D Roberts
Mandy Williams-Davies
Erwyn Jones
Elin Roberts
Mari Rees
Ann Coxon

Ymddiheuriad:
Cynghorwyr:

DATGAN DIDDORDEB
Ni fu i unrhyw gynghorydd Ddatgan Diddordeb

I alw'r ŵyl yn Farchnad 'Dolig 'Stiniog a'i gynnal rhwng 5ed ac 11eg o Ragfyr 2017

I gael prisiau am wahanol loriau sglefrio

I gael prisiau gan Huws Gray am 20 siediau pren i'w defnyddio ar gyfer y stondinau

I holi Cyngor Gwynedd ynglŷn â thrwyddedau angenrheidiol e.e. gwerthu alcohol

I gael prisiau ar gyfer goleuadau Nadolig

I gael prisiau ar gyfer prynu mygiau gyda logo'r Cyngor Tref arnynt

I ystyried gwerthu lle ar y gwrychoedd ar gyfer hysbysebion

PENDERFYNIAD: Derbyn yr argymellion gyda'r Cynghorydd Erwyn Jones yn cynnig a'r Cynghorydd Mandy Williams-Davies yn eilio. Penderfynwyd cynnal cyfarfodydd yn fisol ar y drydedd nos Lun o'r mis gyda'r nesaf i'w gynnal 20fed o Fawrth 2017 yn y Siambr am 7.00 o'r gloch.

9827/03/17 PWYLLGOR CYNLLUNIO
Derbyn argymellion Pwyllgor Cynllunio nos Fawrth 7fed o Fawrth 2017

ARGYMHELLION PWYLLGOR CYNLLUNIO
NOS FAWRTH 7FED MAWRTH 2017
YN SIAMBR Y CYNGOR AM 7.00PM

Presennol:	Ymddiheuriad:
Cynghorwyr:	Cynghorwyr:
Mel Goch ap Meirion-Cadeirydd	Ronwen D Roberts
Annwen Daniels	Bedwyr Gwilym
Erwyn Jones	Rory Francis
Will G Roberts	Mari Rees

DATGAN DIDDORDEB
Cynghorydd Erwyn Jones Cais Cynllunio C17/0110/03/LL
Cynghorydd Mel Goch ap Meirion Cais Cynllunio NP5/59/271S

Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd - Cofrestr Newidiadau Materion sy'n Codi Trefnu dyddiad i drafod y newidiadau hyn. Gellir gweld y newidiadau arfaethedig ar www.gwynedd.llyw.cymru
Argymhellion I wrthwynebu gostwng y canran o dai fforddiadwy o 15% i 10%

1. Cais Cynllunio Rhif C17/0110/03/LL
Datgan Diddordeb
Cynghorydd Erwyn Jones
Ymgeisydd Llechi Cymru
Chwarel Oakeley
Blaenau Ffestiniog
Symud deunydd o ddynodon gweithio mwynau
Dim Gwrthwynebiad ond sylwadau parthed cwestiwn A1.24 sef mi fydd peiriannau ar y safle felly mi fydd angen tanwydd yno.

2. Cais Trwydded Eiddo
Ymgeisydd Mr C Davies
Eurospar
Blaenau Ffestiniog
Amrywiad i werthu alcohol o 7.00am yn lle yr 8.00am presennol
Dim Gwrthwynebiad

3. Cais Cynllunio Rhif C16/1450/03/HT
Ymgeisydd Vodafone Ltd
Tir ger Y Ddôl
Tanygrisiau
Blaenau Ffestiniog
Gosod polyn gyda 3 antenna i gyfanswm uchder o 20m, gosod un lloeren cyfathrebu ynghyd a gosod 3 cabinet offer, 1 cabinet yn cynnwys mesurydd gyda ffens 2m uchder yn amgylchynu
Dim Gwrthwynebiad

4. Cais Cynllunio Rhif C17/0182/03/LL
Ymgeisydd Mr & Mrs J T Jones
Ty'n y Coed
Rhiwbryfdir
Blaenau Ffestiniog
Newid defnydd tir ar gyfer creu safle carafannau teithiol ac estynnu adeilad presennol i greu toiledau a chodi adeilad ar gyfer gwaredu gwastraff
Gwrthwynebu'n gryf ar y sail ganlynol -
1. **Pryderon ynglŷn â mynediad i'r safle oddi ar yr A470**
2. **Pryderon ynglŷn â mynediad i'r safle ar Ffordd Baltic ble mae cae chwarae plant gyferbyn a'r mynediad**
3. **Pryderon ynglŷn â chynyddiad mewn trafnidiaeth ar Ffordd Glanypwll sydd yn ffordd gyfyng iawn**
4. **Pryderon ynglŷn â chynyddiad mewn sŵn i drigolion cyfagos**
5. **Pryderon a yw'r sustem carthffosiaeth bresennol yn addas ar gyfer y datblygiad hwn**

1. Cais Cynllunio Rhif NP5/59/271S
Datgan Diddordeb
Cynghorydd Mel Goch ap Meirion
Ymgeisydd Mr Gwilym Williams
8 Ystâd Moelgwyl
Ffestiniog
Addasu Cytundeb Adran 106 sy'n cyfyngu meddiannaeth y tŷ i bobl sydd yn gweithio o fewn radiws o 30 milltir
Gwrthwynebu diddymu Cytundeb Adran 106 ar yr eiddo ond ddim yn gwrthwynebu i'r Cytundeb Adran 106 gael ei roi o'r neilltu dros gyfnod perchnogaeth y darpar berchennog ond yn cael ei ail osod ar ddiwedd y berchnogaeth honno.

CEISIADAU WEDI DERBYN PENDERFYNIAD AWDURDOD CYNLLUNIO

1. Cais Cynllunio Rhif C17/0071/03/LL
Ymgeisydd D Lloyd
3 Mills Row
Blaenau Ffestiniog
Cais i godi estyniad llawr cyntaf ar gefn yr eiddo
Caniatáu

PENDERFYNIAD: Derbyn yr argymellion gyda'r Cynghorydd Erwyn Jones Mel Goch ap yn cynnig a'r Cynghorydd Meirion yn eilio

9828/03/17 CEISIADAU CYNLLUNIO
Trafod ceisiadau sydd i law a derbyn penderfyniadau Awdurdodau Cynllunio

PENDERFYNIAD: Ni chafwyd unrhyw geisiadau newydd.

9829/03/17 YSGOLORIAETH PATAGONIA
Cyhoeddwyd enillydd Ysgoloriaeth Patagonia 2017/18 yn ystod noson gymdeithasol a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor ar Ddydd Gŵyl Dewi. Diolchwyd i'r tri beirniad sef Mr Tecwyn V Jones, Mrs Anwen Jones a Mrs Ceinwen Humphreys am eu gwaith eto eleni. Llongyfarchwyd Elin Roberts ar ennill Ysgoloriaeth Patagonia 2017/18. Bydd Maia Jones enillydd 2016/17 yn teithio i Rawson mis yma.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

9830/03/17 RHYBUDD O GYNIGIAD - gan y Cynghorydd Kevin Baldwin
'Hoffwn i'r Cyngor Tref ystyried prynu a gosod diffibriliwr i gael ei roi ar y tu allan i adeilad y Cyngor Tref gyda'r holl gostau rhedeg i'w talu gan y Cyngor Tref.'

PENDERFYNIAD: Eiliwyd y cynnig gyda'r penderfyniad i ystyried hyn y fanwl ar ôl cael y wybodaeth angenrheidiol yng nghyfarfod nesaf o Bwyllgor Mwynderau.

9831/03/17 IECHYD

PENDERFYNIAD: Ni chafwyd trafodaeth ond penderfyniad i ymestyn gwahoddiad i'r Rheolwr Practis newydd i ddod a thrafod unrhyw ddatblygiadau newydd gyda'r Cyngor Tref.

9832/03/17 GWEFAN Y CYNGOR TREF

Cafwyd gwybodaeth bod y wefan bron a'i darfod. Mae Mr Gareth T Jones wedi ysgrifennu crynodeb o lyfr ei dad sef Senedd Stiniog ar gyfer y wefan ac yn lle tal am ei waith gofynnodd i'r Cyngor Tref wneud cyfraniad i Ymchwil y Canser.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth ac i wneud cyfraniad o £200 i Ymchwil Canser Cymru yn lle tal i Mr Gareth T Jones am ei waith.

9833/03/17 PARTNERIAETH Y PARC

Cafwyd gwybodaeth bod Partneriaeth y Parc wedi archebu coed bach i'w plannu yn y Parc.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth

9834/03/17 CAEAU CHWARAE

Cafwyd gwybodaeth bod storm Doris wedi gwneud cryn ddifrod yn y Parc wrth i sawl coeden Leylandii gael eu chwythu i lawr gan y gwynt. Mae'r coed bellach wedi eu torri a hefyd tair coeden Leylandii arall oedd yn debyg o ddisgyn yn y dyfodol. Mae difrod wedi ei wneud i'r ffens a'r giât ger y man Bowlio, y tarmac a'r cwrbyn ger y cwrt tenis a hefyd wedi creu difrod ar un o'r siglenni ar y parc chwarae plant. Mae cais am hawliad yswiriant mewn llaw ar gyfer y siglen.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth ac i drafod sut i gynnig y logiau fydd ar gael yn y Parc yn deg i'r cyhoedd yng nghyfarfod Pwyllgor Mwynderau.

9835/03/17 CYFLE I GYNGHORWYR ADRODD YN ÔL I'R CYNGOR YN DILYN EU PRESENOLDEB MEWN PWYLLGORAU ALLANOL

Bu i'r Cynghorydd Ronwen D Roberts adrodd iddi fynychu cyfarfod o grŵp bychan sydd yn edrych i mewn i gael sicrhau safle ar gyfer Canolfan Treftadaeth i'r dref.

Adroddodd y Cynghorydd Mandy Williams-Davies iddi fynychu cyfarfod o bwyllgor yr Ŵyl Cerdd Dant. Dywedodd wrthynt ddiolch am gefnogaeth y Cyngor Tref i'r Ŵyl ac y bydd cyfraniad y Cyngor Tref yn mynd tuag at noddi dwy gystadleuaeth.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

9836/03/17 NEWYDDION O GYNGOR GWYNEDD

Ni chafwyd unrhyw newyddion

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

9837/03/17 CLERKS AND COUCILS DIRECT

Cyfnodolyn

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

9838/03/17 THE CLERK
Cyfnodolyn

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth

Daeth y cyfarfod i ben am 8.34yh

CADEIRYDD

CYNHELIR CYFARFOD ARFEROL NESAF Y CYNGOR TREF
NOS IAU 6ed EBRILL 2017
YN SIAMBR Y CYNGOR am 7.00 y.h.

CAEIR RHAGLEN AR GYFER CYFARFOD ARFEROL 6ed EBRILL 2017
AR YR 30ain MAWRTH 2017